<p>Socio-economic Disadvantage <i>(What cumulative impact will the proposal have on people or groups because of their protected characteristic(s) or vulnerability or because they are already disadvantaged)</i></p>	<p>The Welsh Language Promotion Strategy will have a positive impact on socio-economic disadvantage as it aims to promote and facilitate the use of the Welsh language (ability and access to services).</p> <p>Access to non-funded Welsh language training courses, Welsh clubs or events, early years childcare provision may</p>	<p>Promotion of fully or part funded Welsh language training courses.</p> <p>As far as reasonably possible Welsh clubs or events are free or concessionary rates are provided.</p> <p>Programmes which can provide financial assistance to eligible parents wanting to access Welsh-medium early</p>	<p>The ability to speak, read, write, and understand Welsh is a valuable skill which is highly sought after by employers across Wales and can increase overall job prospects.</p> <p>Greater accessibility of key services if provided via preferred language choice.</p>
---	--	--	---

	not be viable for socio-economically disadvantaged groups.	years childcare provision is offered.	
--	--	---------------------------------------	--

Section 4 – Children’s Rights Approach - [The Right Way](#)

The Children’s Rights Approach – The Right Way is a framework for working with children, grounded in the UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC). It places the UNCRC at the core of planning and service delivery and integrates children’s rights into every aspect of decision-making, policy, and practice. The Right Way focuses on three main them Participation, Provision and Protection.

Protected characteristics	Will the proposal have any positive impacts on the Children’s Rights Approach?	Will the proposal have any negative impacts on the Children’s Rights Approach?	Outline how the proposal could maximise any positive impacts or minimise any negative impact. Please indicate any views evidence you have that supports this.
Participation (child or young person as someone who actively contributes to society as a citizen)	Yes, the strategy looks to promote and facilitate the use of Welsh language for children and young people.	No negative impacts identified.	Increasing Welsh-medium education provision from early years to post-16 learning. Increasing the awareness and understanding of the cultural history of the Welsh language, therefore raising its profile and value. Facilitating the increase of access to Welsh language services.
Provision (the basic rights of children and young people to survive and develop)	Yes, the strategy looks to promote and facilitate the use of Welsh language for children and young people.	No negative impacts identified.	Increasing Welsh-medium education provision from early years to post-16 learning. Increasing the awareness and understanding of the cultural history of the Welsh language, therefore raising its profile and value. Facilitating the increase of access to Welsh language services.
Protection (children and young people are protected against	Yes, the strategy looks to promote and facilitate the use of Welsh language for	No negative impacts identified.	Facilitating the increase of access to Welsh language services.

exploitation, abuse or discrimination	children and young people.		
---------------------------------------	----------------------------	--	--

Section 5 - Data

Please outline any data or evidence that has been used to develop the proposal. For example, this can be previous consultations, national/regional/local data, pilot projects, reports, feedback from clients etc.

What data/evidence was used? - provide any links.	What were the key findings?	How has the data/evidence informed this proposal?
<p>Well-being National Indicators - National data giving an overview of Welsh language use across Wales https://gov.wales/wellbeing-wales-2022-wales-vibrant-culture-and-thriving-welsh-language.html</p>	<p>Fluency levels have remained stable at 10-11% since 2012-13. The percentage of people who can speak Welsh but not fluently is 24% (which has been increasing over recent years).</p>	<p>Supported the assessment of the former Welsh Language Promotion Strategy 2017/22 and used as a baseline to inform development of the new strategy's objectives and action plan.</p>
<p>Annual Population Survey (October 2020 to September 2021)</p>	<p>For the year ending 30 September 2021, the Annual Population Survey reported that 29.5% of people aged three or older were able to speak Welsh. This figure equates to around 892,500 people.</p> <p>This is 0.8 percentage points higher than the previous year (year ending 30 September</p>	

National Population Survey (Survey for Wales) (April 2021 to March 2022)

2020), equating to around 20,300 more people.

The lowest numbers of Welsh speakers are in Blaenau Gwent (10,300)

The lowest percentages of Welsh speakers are in Blaenau Gwent (15.5%)

Understands spoken Welsh –
 Yes (12%), No (88%)

Read Welsh –
 Yes (10%), No (90%)

Welsh speaking ability –
 I can only speak a little Welsh (61%)

Ability in spoken Welsh (adults) – Can't speak Welsh (81%) 88% can't speak Welsh

People using the Welsh language in everyday life - No 97%

Pupil-level Annual School Census (PLASC) (2019-20)

Year 1 Cohort (total of 728 pupils)
 29 pupils (4%) are taught via the medium of Welsh.

In-line with Cymraeg 2050 Strategy - the target is for 75 (10%) of Year 1 Cohort to be taught via the medium of Welsh (6 percentage point increase).

School Workforce Annual Census (SWAC) (2019-20)

A number English-medium primary and secondary school practitioners identify as having no entry, or foundation level Welsh language skills. Very few identify as having higher language skills or as being proficient.

Primary - Teach through the medium of Welsh (12%) (Total staff 228, 27 can)

Secondary - Teach through the medium of Welsh (4%) (Total staff 82, 3 can)

Post-16 Coleg Gwent - Staff Welsh fluency (1%); Advanced Welsh (2%)

Are there any data or information gaps and if so what are they and how do you intend to address them?

At the time of this Integrated Impact Assessment being undertaken the Welsh Language Promotion Strategy 2022/27 statutory target was based on Census 2011 data. Census 2021 Welsh language data was released on 6th December 2022 and has been used to inform Blaenau Gwent's statutory target.

Section 6 - Consultation.

Using the questions below please provide details of any planned consultations or consultations that have been undertaken to support the proposal, referring to the Gunning Principles as appropriate:

Principle 1: Consultation must take place when the proposals are still at a formative stage. You must not have already made up your mind.

Principle 2: Sufficient reasons must be put forward to allow for intelligent consideration and response. Have people been given the information and opportunity to influence?

Principle 3: Adequate time must be given for consideration and response. Is the consultation long enough bearing in mind the circumstances?

Principle 4: The product of consultation must be conscientiously taken into account when finalising the decision

Please consider the following questions:

1. Who did you consult?

The strategy underwent two consultation phases (informal and statutory) and feedback on the proposed strategy was sought from a range of stakeholders referenced within the strategy. As part of the statutory consultation period there were 39 survey respondents.

2. When did the consultation take place and was adequate time given for a response?

December 2021 and November to December 2022.

3. Was there enough information provided to respond effectively?

A stakeholder workshop was held to assess the former Welsh Language Promotion Strategy 2017/22 to help shape the development of the new strategy.

During the formal consultation period a copy of the Welsh Language Promotion Strategy 2017/22 Assessment, alongside a copy of the draft Welsh Language Promotion Strategy 2022/27 was provided.

4. What were the findings?

A key part of the statutory consultation phase for Blaenau Gwent's Welsh Language Promotion Strategy 2022-27 stakeholders received the opportunity to provide feedback on the draft strategy via an online survey (available in Welsh and English).

The survey was made up of general questions surrounding the structure of the strategy; questions on our annual Welsh language speaker target; questions on our draft objectives; and 'About You' demographic questions. This was circulated to all stakeholders who are referenced within the strategy.

Overall, there was positive feedback received about the plans use of language with comments made that it was concise, easy to read, and understandable. A few comments suggested less jargon and statistics could be used, however we feel setting out the legislative and policy context for the strategy is important.

Generally, people were supportive of our Welsh language use target, but a few respondents suggested we could be more ambitious. Please note, the target is subject to change following the publication of the Census 2021 Welsh language data on the 6th December 2022.

Some respondents shared their concerns towards having a Welsh Language Promotion Strategy for Blaenau Gwent and it being made a priority against other current pressing issues (for example, Cost of Living crisis), given Blaenau Gwent has the lowest number of Welsh speakers within Wales. This feedback has been considered and indicates the need to prioritise a positive change in attitude towards the Welsh language in the area as an action across all three of our objectives.

People told us that focusing on education and supporting and promoting Welsh language training for adults would best help us in meeting and or exceeding the aims of the plan. The promotion of such opportunities across Blaenau Gwent features within our action plan.

Objective one

67% of participants voting somewhat supportive to fully supportive.

Comments which were not supportive outlined that use and facilitation of the Welsh language should be a matter of choice, but many of the responses were positive towards the plan enabling people to use the Welsh language and Welsh language promotion.

Feedback also centred on Welsh language lessons being made available to the public and the promotion of all opportunities across Blaenau Gwent features within our action plan.

Objective two

80% of participants voting somewhat to fully supportive.

This is consistent with the focus on education being the most present topic in our feedback, an area which features within the plan and closely aligns to the work of the Welsh in Education Strategic Plan 2022/32. Suggestions to aid fulfilling this objective such as setting up social media pages to support parents with children on Welsh education as well as forming/promoting clubs are suggestions which feature within our action plan.

Objective three

75% of participants voting somewhat to fully supportive.

Most responses acknowledged the challenges given our number of Welsh speakers, although there were positive suggestions made that we have already begun putting in place such as more promotion of training available to staff and the use of 'Dysgu Cymraeg' (Learn Welsh) badges.

In conclusion, respondents were generally supportive of our draft Welsh Language Promotion Strategy 2022/27 objectives and action plan. All ideas and suggestions provided have been collated and will be used to help shape the steps and actions we take to support its delivery which will enable us to meet or exceed our annual target.

5. Have the findings been considered with regards to the decision?

The feedback received was welcomed and will be used to help shape the implementation of the strategy (for example, positive suggestions on how we can increase and facilitate the use of Welsh in the community etc.).

Section 7 - Decision

Using the information you have gathered from sections 1-9 please state in the table below whether you are able to proceed with the proposal.

Continue with the proposal in its current form	Yes X	No <input type="checkbox"/>
Continue with proposal but take into account reasonable steps to mitigate any negative impacts of the proposal	Yes <input type="checkbox"/>	No X

Please contact Policy & Partnerships should you require any further advice or guidance on completing your assessment via lissa.friel@blaenau-gwent.gov.uk or emma.scherptong@blaenau-gwent.gov.uk.

This page is intentionally left blank

Pwyllgor: Cyngor

Dyddiad y cyfarfod: 21 Rhagfyr 2022

Testun yr Adroddiad: Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27

Deiliad Portffolio: Y Cynghorydd Steve Thomas / Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan: Emma Scherptong, Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Llwybr Adrodd								
Tim Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Tim Arwain Corfforaethol	Deiliad / Cadeirydd Portffolio	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	Pwyllgor Craffu	Pwyllgor Gwaith	Y Cyngor	Arall (nodwch)
	10.11.22	07.12.22			15.12.22		21.12.22	

1. **Pwrpas yr Adroddiad**
 Pwrpas yr Adroddiad yw cyflwyno Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor 2022/27.

2. **Cwmpas a Chefndir**
 - 2.1 Mae gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i gynhyrchu a chyhoeddi'r strategaeth o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Safon 145 a Safon 146 fel y nodir isod:
 - 2.2 **Safon 145**

 Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) —
 - (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a
 - (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).
 - 2.3 **Safon 146:**

 Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi —

(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a

(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn —

(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;

(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

3. **Opsiynau ar gyfer Argymhelliad**

3.1 Roedd y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol wedi nodi drafft Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 (Atodiad 1) ac Asesiad (Atodiad 2) ar 10 Tachwedd 2022.

3.2 Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol ar 15 Rhagfyr 2022, a rhoddir adroddiad llafar i'r Cyngor ar unrhyw adborth.

3.3 **Opsiwn 1**

I'r Cyngor ystyried a chymeradwyo Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 ar gyfer ei chyhoeddi.

Opsiwn 2

I'r Cyngor ystyried a chymeradwyo Strategaeth Hyrwyddo'r Cymraeg 2022-27, gyda newidiadau, cyn ei chyhoeddi.

4. **Tystiolaeth o sut mae'r pwnc hwn yn cefnogi cyflawniad y Cynllun Corfforaethol / Cyfrifoldebau Statudol / Cynllun Llesiant Blaenau Gwent**

4.1 Mae gofyniad statudol ar y Cyngor i gynhyrchu a chyhoeddi Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg pum mlynedd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

4.2 Mae'r strategaeth wedi'i halinio a'i chydabod o fewn Cynllun Corfforaethol Blaenau Gwent 2022/27 a bydd yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor o 'Blaenau Gwent – lle sy'n deg, yn agored ac yn groesawgar i bawb drwy weithio gyda'n cymunedau ac ar eu rhan'. Wrth nodi'r Gymraeg fel mesur perfformiad allweddol i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau, mae'n dangos yn gadarnhaol ein hymrwymiad a'n cefnogaeth barhaus tuag at godi proffil a defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r strategaeth hefyd yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol o 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

5. **Goblygiadau Yn Erbyn Pob Opsiwn**

5.1 ***Effaith ar y Gyllideb (effaith tymor byr a hirdymor)***

Gallai methu â chydymffurfio â'r gofyniad i lunio strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg arwain at gosbau ariannol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Y ffigwr a ddyfynnwyd yw £5,000 am doriad. Mae gofyniad ariannol bychan ar gyfer cyfieithu'r strategaeth i'r Gymraeg. Bydd angen i'r gyllideb Polisi a Phartneriaethau gwrrd â hyn.

5.2 ***Risg gan gynnwys Camau Gweithredu Lliniaru***

Mae risg i enw da'r Cyngor os na chaiff Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 ei chyhoeddi, neu os na chaiff ei chyhoeddi mewn pryd.

Gall Comisiynydd y Gymraeg ymchwilio heb rybudd ac mae ganddo'r awdurdod i ennill pŵer mynediad. Gallai unrhyw dystiolaeth o fethu â chydymffurfio â Safon arwain at gosb.

5.3 ***Cyfreithiol***

Mae gofyniad statudol ar y Cyngor i lunio a chyhoeddi strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Safon y Gymraeg 145).

5.4 ***Adnoddau Dynol***

Mae gan Datblygu Sefydliadol rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi Amcan 3 – 'Byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle', gan gynnwys cefnogi hyfforddi staff mewn sgiliau ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hybu sgiliau Cymraeg drwy ei bolisïau a gweithdrefnau recriwtio.

6. **Tystiolaeth Ategol**

6.1 ***Gwybodaeth a Data Perfformiad***

6.1.1 Mae Safon y Gymraeg 145 yn nodi gofyniad i osod "targed (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal" erbyn 2027 a "datganiad yn nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw".

6.1.2 Er mwyn cyrraedd targed o gynnydd o 46% yn nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, byddai angen i ni ennill 1,856 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol yn erbyn llinell sylfaen Cyfrifiad 2021 Blaenau Gwent o 4,035.

6.1.3 Felly, mae hyn yn cynrychioli cynnydd blynyddol cyfartalog o 66 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol h.y., 4% o'r ffigur targed o 1,856 ychwanegol ym Mlaenau Gwent am y 28 mlynedd nesaf.

6.2 ***Canlyniad disgwyliedig i'r cyhoedd***

Mae cynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiad yn enghreifftio ymrwymiad y Cyngor i'r gymuned Gymraeg ei hiaith o fewn yr ardal ac yn ceisio cyflawni'r canlyniadau a ganlyn:

- Mwy o bobl yn ymgysylltu â'r Gymraeg
- Mwy o bobl yn dod yn rhugl yn y Gymraeg

- Mwy o weithwyr y Cyngor yn gallu defnyddio'r Gymraeg

6.3 **Ymglymiad (ymgyngori, ymgysylltu, cyfranogiad)**

Cyflawnwyd ymglymiad i lywio datblygiad Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 mewn dau gam:

6.3.1 **Cam 1 (ymgysylltu anffurfiol)**

Casglwyd mewnwelediad y dinesydd a phroffesiynolion i benderfynu beth wnaethom yn dda; ble y gallwn wella ac a oes unrhyw fylchau yn ein dull o gyflawni ein hen Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017/22.

6.3.2 **Cam 2 (ymgyngoriad ffurfiol)**

Fe wnaethom gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori gan gynnwys arolwg ar-lein, cynnig gweithdai, a chynnal amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu anffurfiol (ar gael yn Gymraeg a Saesneg).

6.3.3 **Ymgynghorwyr:**

- Tîm Arwain Corfforaethol
- Tîm Arwain Corfforaethol Ehangach
- Staff Cyngor Blaenau Gwent
- Aelodau
- Ysgolion Uwchradd a Chynradd Blaenau Gwent (disgyblion a rhieni)
- Hybiau Cymunedol Blaenau Gwent
- Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent
- Fforwm Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent
- Ysgol Uwchradd Gwynllyw (disgyblion a rhieni)
- Comisiynydd y Gymraeg
- Grŵp Deddf
- Cymdeithas Gymraeg Blaenau Gwent
- Fforwm Ieuenctid a Rhwydwaith Ieuenctid Blaenau Gwent
- Rhwydwaith Pobl Hŷn
- Panel Dinasyddion Blaenau Gwent
- Grŵp Ymgysylltu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Partneriaeth Cyflenwi Lleol Blaenau Gwent

6.3.4 **Cawsom 39 o ymatebion i'n harolwg ar-lein. Ystyriwyd a defnyddiwyd yr adborth i lywio datblygiad ein cynllun terfynol. Mae crynodeb o'r canfyddiadau fel a ganlyn:**

- Ar y cyfan, cafwyd adborth cadarnhaol ynglŷn â defnydd iaith y cynlluniau. Dywedodd pobl wrthym ei fod yn gryno, yn hawdd ei ddarllen, ac yn ddealladwy.
- Roedd pobl yn gefnogol i'n targed ond yn nodi y gallem fod yn fwy uchelgeisiol. Dywedodd pobl wrthym y dylai'r cynllun ganolbwyntio ar addysg a dysgu i oedolion.
- Roedd rhai pobl yn rhannu pryderon ynghylch cael Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer Blaenau Gwent a'i bod yn cael ei

gwneud yn flaenoriaeth yn erbyn materion dybryd cyfredol (er enghraifft, argyfwng Costau Byw), o ystyried mai Blaenau Gwent sydd â'r nifer lleiaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ystyriwyd yr adborth hwn ac mae'n nodi'r angen i flaenoriaethu newid cadarnhaol mewn agwedd tuag at y Gymraeg yn yr ardal fel cam gweithredu ar draws pob un o'n tri amcan.

- Amcan un - 67% o'r cyfranogwyr yn pleidleisio eu bod yn weddol neu'n gwbl gefnogol.
- Amcan dau - 80% o'r cyfranogwyr yn pleidleisio eu bod yn weddol neu'n gwbl gefnogol.
- Amcan tri - 75% o'r cyfranogwyr yn pleidleisio eu bod yn weddol neu'n gwbl gefnogol.

6.4 ***Meddwl ar gyfer y tymor hir (cynllunio ymlaen llaw)***

Mae gan Flaenau Gwent Strategaeth Iaith Gymraeg ers 1993 sy'n dangos ymrwymiad hirdymor i'r Gymraeg. Mae Blaenau Gwent wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y fwrdeistref drwy ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 pum mlynedd.

6.5 ***Ffocws ataliol***

Bydd bodloni'r gofynion a osodwyd gan Safonau'r Gymraeg, sy'n cynnwys cwblhau'r strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg, yn anelu at atal risg i enw da ac ariannol.

6.6 ***Cydweithio / gweithio mewn partneriaeth***

Bydd Blaenau Gwent yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos a rhanbarthol i gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd hefyd yn gweithio ochr yn ochr â Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent sy'n cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau Cymraeg lleol a grwpiau cymunedol, a'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg sy'n cefnogi cyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32.

6.7 ***Integreiddio (ar draws meysydd gwasanaeth)***

Drwy ystyried ymagwedd gorfforaethol tuag at y Gymraeg mae'r Cyngor yn dangos ei fod yn mabwysiadu ymagwedd integredig.

6.8 ***Datgarboneiddio a Lleihau Allyriadau Carbon***

Bydd hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg lleol yn darparu gwell hygrychedd i wasanaethau Cymraeg yn y fwrdeistref.

6.9 ***Asesiad Effaith Integredig (AEI) (dylai'r templed sgrinio gael ei gwblhau ar gyfer unrhyw benderfyniadau i nodi a oes angen asesiad effaith integredig llawn. Bydd angen cwblhau AEI llawn os yw'r penderfyniad yn rhan o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i ystyried sut y gallai'r penderfyniad helpu i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol).***

Gweler 'Dogfennau Cefndir / Dolenni Electronig'.

7. **Trefniadau Monitro**

7.1 *Nodwch sut bydd y gwaith yn cael ei fonitro e.e. drwy drefniadau craffu neu reoli perfformiad cyfarwyddiaeth.*

Cyflwynir Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol.

Dogfennau Cefndir / Cysylltiadau Electronig

- *Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Drafft 2022/27*
- *Asesiad o Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017/22*
- *Asesiad Effaith Integredig*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Drafft

**Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg
2022-27**

Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu o dan ofynion y Gymraeg yn Safon y Gymraeg 145 o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn electronig ar wefan Cyngor Blaenau Gwent ar dudalen '[Yr Iaith Gymraeg ym Mlaenau Gwent](#)' ac mae copïau papur ar gael yn llyfrgelloedd lleol a hybiau cymunedol Blaenau Gwent.

Os hoffech dderbyn copi o'r ddogfen hon mewn fformat arall, gallwch gysylltu â'r Tîm Polisi a Phartneriaethau drwy anfon e-bost at Cymraeg@blaenau-gwent.gov.uk neu drwy ysgrifennu at

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Swyddfeydd Cyffredinol

Heol Gwaith Dur

Glynebwy

Blaenau Gwent

NP23 6AA

This document is available in English.

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair	1
1. Cyflwyniad	2
2. Asesu ein cynnydd: Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017/22	3
3. Trosolwg o Flaenau Gwent	4-5
4. Ein hamcanion	6
5. Ein targed pum mlynedd	7
6. Cefndir deddfwriaethol	8-9
7. Cefndir polisi	10-11
8. Dull ymgynghori	12-14
9. Ein Partneriaid	15-16
10. Cynlluniau Gweithredu	17-20
11. Trefniadau monitro	21

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein hail Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27. Mae'r cynllun yn cyd-fynd â [Chynllun Corfforaethol Blaenau Gwent 2022/27](#) sy'n cydnabod y Gymraeg fel mesur perfformiad allweddol ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys cyfrannu at Nod Llesiant cenedlaethol [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) o 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'n sefydliadau Cymraeg lleol yn ogystal â'n rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol yn ystod ein proses ymgynghori ffurfiol, sy'n hanfodol i'n helpu i gyflawni ein hamcanion a'n camau arfaethedig, mae'r cynllun yn nodi'n glir ein bwriadau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynyddu ei defnydd a nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn ein cymunedau, gweithleoedd a lleoliadau addysgol.

Ers ein cynllun diwethaf mae Blaenau Gwent wedi gwneud cynnydd cadarnhaol tuag at gefnogi [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg](#) Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg newydd yn Nhredegar. Mae'r 'egin' ysgol sydd â 210 o leoedd yn dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i gynyddu ei gyfleoedd addysg Gymraeg drwy gyflawni ein [Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022/32](#).

Rydym yn bwriadu adeiladu ar ein cynnydd a byddwn yn parhau i ddangos ein hymrwymiad parhaus i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf yn ogystal â chodi ei phroffil ar draws Blaenau Gwent.

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i bawb a helpodd i'n cefnogi i ddatblygu'r cynllun.



Leader

Cllr Steven Thomas



Chief Executive

Damien McCann

1. Cyflwyniad

Dyma ail Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 y Cyngor sy'n bodloni Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Fe'i datblygwyd yn dilyn asesiad o gynnydd yn erbyn ein cynllun cyntaf yn unol â Safon y Gymraeg (146). Am ragor o wybodaeth gweler Adran 2, 'Asesu ein cynnydd: Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017/22'.

Mae'r cynllun wedi'i alinio a'i gydnabod o fewn [Cynllun Corfforaethol Blaenau Gwent 2022/27](#) a bydd yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor o '*lle sy'n deg, agored a chroesawgar i bawb drwy weithio gyda a thros ein cymunedau*'. Wrth nodi'r Gymraeg fel mesur perfformiad allweddol ar gyfer ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau, mae'n dangos yn gadarnhaol ein hymrwymiad a'n cefnogaeth barhaus tuag at godi proffil a defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r cynllun pum mlynedd yn nodi ein tri amcan a'n camau arfaethedig ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu'r defnydd ohoni a nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau, gweithleoedd a lleoliadau addysgol. I gael rhagor o wybodaeth gweler Adran 4 'Ein Hamcanion' ac Adran 10 'Ein Cynllun Gweithredu'.

Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â sefydliadau Cymraeg lleol, yn ogystal â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid allweddol yn ystod ein proses ymgynghori ffurfiol. Mae'n cydnabod gwerth gweithio cydgysylltiedig wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun yn ogystal â chyfranogiad parhaus pobl sy'n byw, yn gweithio, neu'n ymweld â Blaenau Gwent. Am ragor o wybodaeth gweler Adran 9 'Ein Partneriaid'.

2. Asesu ein cynnydd: Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017/22

COVID-19 (Mawrth 2020 – Rhagfyr 2021)

Sylwch, oherwydd y pandemig byd-eang, fod ein gwaith statudol, megis Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, wedi'i oedi gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn galluogi sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i ymdrin â'r ymateb uniongyrchol i'r argyfwng a chynllunio adferiad, yn ystod y cyfnod hwn.

Cafodd hyn effaith uniongyrchol ar gyflawni ein strategaeth bum mlynedd ac adlewyrchir hyn yn ein hasesiad.

I asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017/22 gyntaf, fe wnaethom ystyried y canlynol:

- Adolygu i ba raddau y cyflawnwyd ein tri amcan, trwy gyflawni'r camau a adroddwyd yn ein Hadroddiad Monitro Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg ac Adroddiad Blynyddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Adolygwyd adborth a dderbyniwyd gan ein sefydliadau Cymraeg Lleol a phartneriaid trwy Rwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at Atodiad 1.

3. Trosolwg o Flaenau Gwent

Canfu canlyniadau Cyfrifiad 2021 fod maint poblogaeth Blaenau Gwent wedi gostwng 4.2%, o tua 69,800 yn 2011 i 66,900. Dyma'r gostyngiad canrannol mwyaf ond un yn y boblogaeth o 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac mae Blaenau Gwent yn un o ddim ond saith awdurdod lleol sydd â gostyngiad yn y boblogaeth. Mae hyn hefyd yn golygu bod gan Flaenau Gwent bellach y boblogaeth leiaf ond un yng Nghymru, tra yn 2011 roedd ganddi'r drydedd boblogaeth leiaf. Yn gyffredinol, yng Nghymru, bu cynnydd o 1.4% yn y boblogaeth, gan gynyddu 44,000 i 3,107,500.

Nododd Cyfrifiad 2011 fod 5,284 o siaradwyr Cymraeg yn byw ym Mlaenau Gwent, sef 7.8% o'i phoblogaeth, ac roedd hyn yn gynydd sylweddol o gymharu â Chyfrifiad 1991, a ddangosodd mai dim ond 2.2% (n1,539) oedd yn siarad Cymraeg*.

Mae lefelau rhuglder Adroddiad Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant wedi aros yn sefydlog ar 10-11% ar draws Cymru ers 2012-13. Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl yw 24% (sydd wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf).

Adroddodd Arolwg Poblogaeth Blynyddol Cymru (Gorffennaf 2021 i Mehefin 2022) fod 29.7% o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i tua 899,500 o bobl. Mae hyn 0.5 pwynt canran yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2021), sy'n cyfateb i tua 13,700 yn fwy o bobl. Yn nodedig mae'r niferoedd isaf o siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru ym Mlaenau Gwent (11,000) sydd hefyd y ganran isaf ar 16.6%.

Adroddodd Arolwg Poblogaeth Cenedlaethol Cymru (Ebrill 2021 i Fawrth 2022) mai dim ond 12% (tua 8,029) o'r boblogaeth gyfan ym Mlaenau Gwent sy'n deall Cymraeg llafar ac nad oedd unrhyw newid sylweddol ers canlyniadau arolwg 16/17. Ymhellach, dim ond 10% (oddeutu 6,690) o'r boblogaeth gyfan sy'n gallu darllen Cymraeg. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau mai dim ond ychydig o Gymraeg y gall 61% (oddeutu 40,809) o'r boblogaeth gyfan ei siarad; ac mae 81% (oddeutu 54,189) yn methu siarad Cymraeg.

Yn ddiddorol, canfu'r adroddiad hefyd nad yw 97% (oddeutu 64,893) o'r boblogaeth gyfan yn defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd, tra bod data Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 7.8% o'r boblogaeth gyfan yn siarad Cymraeg. Felly, mae'n bosibl nad yw bron hanner siaradwyr Cymraeg Blaenau Gwent (3.8%, tua 2,542) yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg. Mae angen ymchwilio i ragor o ymchwil i ganfod i ba raddau y mae hyn yn wir a'r rhesymau pam nad yw siaradwyr Cymraeg yn defnyddio eu galluoedd fel rhan o fywyd bob dydd, ond gallai'r canfyddiadau fod yn arwydd o'r diffyg cyfle neu hyder posibl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Dyma'r mathau o faterion y bydd y cynllun hwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw drwy ymgyrchoedd hyrwyddo rhagweithiol i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

Yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2019-20, Carfan Blwyddyn 1 (cyfanswm o 728 o ddisgyblion), addysgir 29 o ddisgyblion (4%) drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn unol â Strategaeth Cymraeg 2050 - y targed yw i 75 (10%) o Garfan Blwyddyn 1 gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (cynnydd o 6 pwynt canran). Ymhellach, nododd Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (SWAC) 2019-20 mai ychydig iawn o ymarferwyr ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n nodi bod ganddynt sgiliau Cymraeg lefel uchel neu hyfedr. Er enghraifft, o fewn y cyfnod cynradd dim ond 12% sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (cyfanswm staff 228, 27 yn gallu); o fewn y cyfnod uwchradd dim ond 4% sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (cyfanswm staff 82, 3 yn gallu); ac o fewn lleoliadau ôl-16 dim ond 1% o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg.

** Bydd y wybodaeth hon yn cael ei diweddararu pan fydd data Cyfrifiad 2021 ar siaradwyr Cymraeg yn cael ei ryddhau.*

4. Ein Hamcanion

Gweledigaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 'filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.'

Amcanion

Mae Blaenau Gwent wedi nodi'r tri amcan Hyrwyddo'r Gymraeg a ganlyn i weithio arnynt gyda'n partneriaid:

1. Byddwn yn hybu ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a'r gymuned.
2. Byddwn yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol i blant a phobl ifanc.
3. Byddwn yn cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

5. Ein targed pum mlynedd

Mae Safon y Gymraeg 145 yn nodi gofyniad i osod “targed (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal” erbyn 2027 a “datganiad yn nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw”.

Er mwyn cyrraedd targed o gynnydd o 46% yn nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, byddai angen i ni ennill 1,856 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol yn erbyn llinell sylfaen Cyfrifiad 2021 Blaenau Gwent o 4,035.

Felly, mae hyn yn cynrychioli cynnydd blynyddol cyfartalog o 66 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol h.y., 4% o'r ffigur targed o 1,856 ychwanegol ym Mlaenau Gwent am y 28 mlynedd nesaf.

Er mwyn cyrraedd y targed hwn, bydd angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o bartneriaid i hyrwyddo'r Gymraeg mewn lleoliadau addysg a chyfleoedd mwy hawdd eu cyrraedd mewn cymunedau; a hybu Cymraeg yn y gweithle.

Mae camau cadarnhaol tuag at gynyddu ein darpariaeth addysg Gymraeg wedi'u cyflawni drwy ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan gynnwys y caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg newydd yn Nhredegar. Mae'r 'egin' ysgol 210 lle yn dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i gynyddu ei gyfleoedd addysg Gymraeg drwy gyflawni ein [Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022/32](#)

6. Cefndir deddfwriaethol

Safonau'r Gymraeg

Mae gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i gynhyrchu'r cynllun hwn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Safon 145 a Safon 146 fel y nodir isod:

Safon 145

Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) -

- (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a
- (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw

Safon 146:

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi –

- (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a (b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn –
 - (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
 - (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg

[Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#) Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu ei gweledigaeth ar gyfer cyflawni miliwn o siaradwyr erbyn 2050 ar draws Cymru. Mae hon yn her sylweddol i Flaenau Gwent, sydd yn gyson â'r defnydd isaf o'r Gymraeg yng Nghymru, ynghyd ag ardaloedd Awdurdodau eraill yn Ne-ddwyrain Cymru.

Serch hynny, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi ymrwmo i wneud cyfraniad gwerthfawr tuag at y targed uchelgeisiol hwn, lle gallwn gyda'n gilydd dyfu'r Gymraeg a hyrwyddo cyfleoedd dwyieithog.

[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd gyda'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a chreu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol. Bydd cyflawni ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 yn helpu i gyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol ar gyfer 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', ochr yn ochr â nodau llesiant cenedlaethol eraill drwy gefnogi cyflawniad Cynllun Corfforaethol Blaenau Gwent 2022/ 27.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Ym mis Medi 2015, cyhoeddwyd [Hysbysiad Cydymffurfio](#) Cymraeg i'r Cyngor.

Nod Safonau'r Gymraeg yw:

- Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau penodol yn Gymraeg.
- Cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau Cymraeg.
- Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg; a
- Sicrhau bod lefel priodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrrff yn yr un sectorau.

Sefydlodd y mesur hefyd rôl Comisiynydd annibynnol i'r Gymraeg sydd â'r nod o hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy'r ddwy egwyddor ganlynol:

- Yng Nghymru, ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

[Mwy na geiriau 2022/27](#) Llywodraeth Cymru

Mae Mwy na Geiriau 2022/27 Llywodraeth Cymru yn gynllun iaith Gymraeg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sydd â'r nod o sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gofal y maent yn ei haeddu a'i angen yn eu dewis iaith. Ei nod yw gwella a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ar draws pob lleoliad iechyd, i gydnabod hyn gan helpu i wella canlyniadau llesiant i unigolion yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O dan God Ymarfer y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau a bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn Gymraeg, i siaradwyr Cymraeg, heb iddynt orfod gofyn amdano fel sy'n ofynnol gan y 'Cynnig Rhagweithiol'.

7. Cefndir polisi

Cynllun Corfforaethol 2022/27 Blaenau Gwent

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2022/27. Mae'n nodi'r prif flaenoriaethau y byddwn yn eu cyflawni i ddechrau trawsnewid Blaenau Gwent yn ardal fwy ffyniannus a chroesawgar a sut rydym yn bwriadu cyflawni canlyniadau gwirioneddol i'n pobl a'n cymunedau lleol, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn ofyniad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bwriad y Ddeddf yw gwneud i'r Cyngor feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, ceisio atal problemau, a chymryd agwedd fwy cydgysylltiedig.

Ein pedair prif flaenoriaeth yw:

1. Cynyddu dysgu a sgiliau i'r eithaf ar gyfer pawb i greu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chydnerth
2. Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig
3. Cyngor uchelgeisiol a blaengar yn darparu gwasanaethau ansawdd da ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir
4. Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a chydnerth

Rydym wedi nodi bod cyflawni ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 yn hanfodol i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol. Mae cynnwys y Gymraeg fel mesur perfformiad allweddol yn adlewyrchu ein hymrwymiad a'n hymdrech barhaus i wella ein harlwy o wasanaethau Cymraeg; cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl â sgiliau Cymraeg yn ein hardal, er bod gan yr ardal y nifer lleiaf o siaradwyr Cymraeg. Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 3 'Trosolwg o Flaenau Gwent'.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022/32 Blaenau Gwent

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA). Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau addysg i wella a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn Addysg dros y deng mlynedd nesaf. Bydd y cynllun yn cyfrannu at gyflawni'r cynllun hwn a menter Cymraeg 2050 – 1 miliwn o siaradwyr Llywodraeth Cymru.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 Blaenau Gwent

Mae'r cynllun yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb sydd â'r nod o gryfhau a hyrwyddo tegwch ar draws ein holl feysydd gwasanaeth i gyflawni canlyniadau cydraddoldeb i drigolion, cymunedau, staff ac ymwelwyr yn unol â'n Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010. Rydym yn cydnabod y bydd cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn helpu i

gyflawni amcanion ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 ac i'r gwrthwyneb.

8. Ein dull ymgynghori

Wrth fodloni gofynion Safon y Gymraeg 146, cynhaliodd y Cyngor adolygiad o'i Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017/22 gyntaf i asesu i ba raddau y gwnaethom gyflawni'r hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud i hyrwyddo a chynyddu defnydd a nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal.

I'n helpu i wneud hyn, gwnaethom ystyried data a gwybodaeth allweddol (ymchwil meintiol) yn ogystal ag ymgysylltu'n rhagweithiol â'n partneriaid lleol a rhanddeiliaid allweddol i gael mewnwleidiad dinasyddion a phroffesiynol i bennu'r hyn a wnaethom yn dda; lle gallwn wella ac a oes unrhyw fylchau yn ein dull o gyflawni ein targed.

Cyflawnwyd ein dull ymgynghori mewn dau gam:

Cam Un – Ymgynghoriad anffurfiol (Tachwedd 2020 – Chwefror 2021)

Wedi'i arwain a'i hwyluso gan ein partner Menter Iaith BGTm, sefydlwyd grŵp Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent ym mis Tachwedd. Cynhaliodd y grŵp ei gyfarfod cyntaf ar-lein a chynnal gweithdy i drafod adborth a gasglwyd o arolwg rhagarweiniol i fyfyrion ar gynnydd yn erbyn ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg gyntaf 2017/22 ac i ystyried cyfleoedd i ddatblygu ein hail Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-27.

Adborth cyffredinol

- Hyrwyddo'r strategaeth ffurfiol yn well (mwy gweladwy i'r cyhoedd).
- Yr angen am dargedau mesuradwy a gwerthusiad rheolaidd o gynnydd y cynllun gweithredu.
- Aliniad gwell â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Camau gweithredu i fapio rhaglenni a phrosiectau sydd eisoes yn cael eu darparu.
- Mwy o wybodaeth am bartneriaid a sefydliadau Cymraeg lleol (e.e., Cymdeithas Gymraeg Blaenau Gwent).

Cyrraedd ein targedau

- Cymraeg yn y gweithle – hyrwyddo hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith.
- Cymunedol – cefnogi digwyddiadau cymunedol a diwylliannol sy'n hybu defnydd ac ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg.
- Plant a Phobl Ifanc, Teulu – Mwy o hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael i rieni di-Gymraeg a gweithgareddau allgyrsiol.

Syniadau am newid agweddau tuag at y Gymraeg

- Datblygu fideos hyrwyddo yn Saesneg sy'n arddangos straeon Cymry Cymraeg lleol; hanes diwylliannol; a pham fod yr iaith yn bwysig.
- Sicrhau bod pob plentyn yn dysgu Anthem Genedlaethol Cymru.

Awgrymiadau ar sut y gall yr awdurdod lleol gefnogi grwpiau lleol i gynyddu defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

- Grantiau cymunedol neu gynllun gwobrau ar gyfer grwpiau Cymraeg lleol.
- Creu grwpiau sgwrsio anffurfiol a rhedeg/cefnogi digwyddiadau (e.e., gwyliau Cymreig).

Ystyriwyd hefyd adborth ymgynghori ychwanegol ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022/32 Cyngor Blaenau Gwent drwy Fforwm y Gymraeg mewn Addysg a'i ddefnyddio i lywio ein hadolygiad.

Cam Dau – Ymgynghoriad statudol (Rhagfyr 2022)

Ategwyd ein cyfnod ymgynghori statudol gan arolwg ar-lein, gweithdai, ac amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu anffurfiol yn ystod mis Rhagfyr 2022 a hyrwyddwyd yn helaeth trwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy ein grwpiau a rhwydweithiau sefydledig.

Gan ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid a restrir isod yn ogystal â'n partneriaid (gweler Adran 8 'Ein Partneriaid'), cynhaliom hefyd ymgysylltu wedi'i dargedu i sicrhau ein bod yn cyrraedd grwpiau cymunedol allweddol a thrigolion i gymryd rhan a rhannu eu barn ar ein drafft o Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27:

- Tîm Arwain Corfforaethol a Thîm Arwain Corfforaethol Ehangach
- Staff Cyngor Blaenau Gwent
- Aelodau
- Ysgolion Uwchradd a Chynradd Blaenau Gwent (disgyblion a rhieni)
- Hybiau Cymunedol Blaenau Gwent
- Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent - Gweithdy
- Fforwm Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent - Gweithdy
- Ysgol Uwchradd Gwynllyw (disgyblion a rhieni)
- Comisiynydd y Gymraeg
- Grŵp Deddf
- Cymdeithas Gymraeg Blaenau Gwent
- Fforwm Ieuenctid a Rhwydwaith Ieuenctid Blaenau Gwent
- Rhwydwaith Pobl Hŷn
- Panel Dinasyddion Blaenau Gwent
- Grŵp Ymgysylltu BGC
- Partneriaeth Cyflenwi Lleol Blaenau Gwent

Cawsom 39 o ymatebion i'n harolwg ar-lein. Ystyriwyd a defnyddiwyd yr adborth i lywio datblygiad ein cynllun terfynol. Mae crynodeb o'r canfyddiadau fel a ganlyn:

- Ar y cyfan, cafwyd adborth cadarnhaol ynglŷn â defnydd iaith y cynlluniau. Dywedodd pobl wrthym ei fod yn gryno, yn hawdd ei ddarllen, ac yn ddealladwy.

- Roedd pobl yn gefnogol i'n targed ond yn nodi y gallem fod yn fwy uchelgeisiol. Dywedodd pobl wrthym y dylai'r cynllun ganolbwyntio ar addysg a dysgu i oedolion.
- Roedd rhai pobl yn rhannu pryderon ynghylch cael Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer Blaenau Gwent a'i bod yn cael ei gwneud yn flaenoriaeth yn erbyn materion dybryd cyfredol (er enghraifft, argyfwng Costau Byw), o ystyried mai Blaenau Gwent sydd â'r nifer lleiaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.
- Ystyriwyd yr adborth hwn ac mae'n nodi'r angen i flaenoriaethu newid cadarnhaol mewn agwedd tuag at y Gymraeg yn yr ardal fel cam gweithredu ar draws pob un o'n tri amcan.
- Amcan un - 67% o'r cyfranogwyr yn pleidleisio eu bod yn weddol neu'n gwbl gefnogol.
- Amcan dau - 80% o'r cyfranogwyr yn pleidleisio eu bod yn weddol neu'n gwbl gefnogol.
- Amcan tri - 75% o'r cyfranogwyr yn pleidleisio eu bod yn weddol neu'n gwbl gefnogol.

9. Ein partneriaid

Gwyddom drwy gydweithio â'n partneriaid a rhanddeiliaid allweddol y byddwn yn gallu cyflawni mwy. Isod mae rhestr o rai o'r sefydliadau, asiantaethau a grwpiau allweddol a fydd yn helpu i'n cefnogi i gyflawni nodau ac amcanion y cynllun hwn:

Menter Iaith BGMT

Mae Menter Iaith yn fudiad gwirfoddol sydd â'r nod o hyrwyddo'r Gymraeg.

Sefydlwyd Menter Iaith BGMT yn 2007 gan ei gwneud yn un o'r Mentrau Iaith ieuengaf, neu 'Mentrau Iaith' o blith y 22 sy'n bodoli ar draws Cymru. Mae'r Fenter yn gwasanaethu tair sir – Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy.

Yn ymarferol, sefydlwyd y 'Mentrau Iaith' i drefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau i bobl o bob oed, cefndir, a gallu ieithyddol fwynhau a chymdeithasu yn y Gymraeg gan gynnwys rhieni, teuluoedd, plant a phobl ifanc, oedolion, a dysgwyr. Mae'r Mentrau yn cynnig digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Urdd Gobaith Cymru

Mae Urdd Gobaith Cymru yn Fudiad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol gyda dros 55,000 o aelodau rhwng 8 – 25 oed. Ers 1922, maent wedi darparu cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru i'w galluogi i wneud cyfraniadau cadarnhaol i'w cymunedau.

Mudiad Meithrin

Sefydlwyd Mudiad Meithrin yn 1971 er mwyn helpu i feithrin tirwedd gyfoethog o brofiadau chwarae a dysgu cyfrwng Cymraeg i blant o enedigaeth i oed ysgol.

Mudiad gwirfoddol sy'n frwd dros ddathlu ac annog defnydd o'r Gymraeg.

Rhwydwaith Gymraeg Blaenau Gwent

Wedi'i arwain a'i hwyluso gan Fenter Iaith BGMT, mae'r rhwydwaith yn dod â chymysgedd o sefydliadau ac asiantaethau sy'n cefnogi hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn uniongyrchol, gan gynnwys gwasanaethau allweddol awdurdodau lleol, a dinasyddion Blaenau Gwent at ei gilydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

Pwrpas y grŵp fydd cefnogi monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn cyflawni'r cynllun bob chwarter gan gysylltu â threfniadau rheoli perfformiad corfforaethol Cyngor Blaenau Gwent.

Fforwm Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent (WEF)

Wedi'i arwain a'i hwyluso gan Gyngor Blaenau Gwent, y Fforwm Cymraeg mewn Addysg yw'r sbardun strategol y tu ôl i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd y Cyngor 2022/27 (WESP) a'i rôl yw monitro a gwerthuso cynnydd.

Mae'r fforwm yn cyfarfod bob tymor, gydag is-grwpiau penodol yn cael eu cynnal mewn cyfarfodydd ac o'u cwmpas, i ganolbwyntio ar themâu penodol. Mae'r Fforwm yn darparu sianel gyfathrebu ffurfiol rhwng partneriaid a rhanddeiliaid allweddol, sy'n cydweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth, nodau, amcanion, blaenoriaethau strategol a thargedau a nodir yn y cynllun a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Cyngor Blaenau Gwent 2022/27.

Cymdeithas Gymraeg Blaenau Gwent

Holl Ysgolion Uwchradd a Chynradd Blaenau Gwent

Clwb yr Urdd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw

[Parth Dysgu Blaenau Gwent - Coleg Gwent](#)

[Dysgu Cymraeg Gwent](#)

[Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cyngor Blaenau Gwent](#)

RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg)

Rhwydwaith Rhanbarthol Rhwydiaith

Mae Rhwydwaith Rhwydiaith yn cynnwys aelodau cyngor ac aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gan gynnwys awdurdodau parciau cenedlaethol, a gwasanaethau tân ac achub gyda siaradwyr gwadd yn cael eu gwahodd pan fo angen ac fe'i sefydlwyd ym mis Rhagfyr 2021. Pwrpas y rhwydwaith yw darparu cyfleoedd i rannu arfer da, a thrafod ffyrdd o oresgyn heriau cyffredin a rhannu syniadau strategol i gefnogi mwy o ymgysylltu â'r Gymraeg.

Grŵp Deddf

Mae Grŵp Deddf fel eu harwyddair 'gweithio dros yr iaith' yn awgrymu bod grŵp sy'n gweithredu fel rhwydwaith cymorth i swyddogion sydd â chyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ar draws De-ddwyrain Cymru. Sefydlwyd y grŵp yn 1998 ac ers gweithredu'r Safonau, maent wedi ehangu'n sylweddol. Erbyn hyn mae 50 o sefydliadau gwahanol yn aelodau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, y sector iechyd, sefydliadau addysg, sefydliadau cenedlaethol, sefydliadau brys a sefydliadau partner.

Rhwydwaith Swyddogion Rhanbarthol – Mwy na geiriau

[Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent](#) a Phartneriaeth Cyflenwi Lleol Blaenau Gwent

[Comisiynydd y Gymraeg](#)

10. Cyflawni Ein Hamcanion – Cynlluniau Gweithredu

Teuluoedd a Chymuned	
<p>Amcan 1:</p> <p><i>Gan weithio gyda'n partneriaid byddwn yn hybu ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a'r gymuned.</i></p>	
<p>Dangosydd(ion):</p> <ul style="list-style-type: none"> Nifer y gweithgareddau Cymraeg a drefnir ac a gynhelir o fewn cymunedau ar draws y fwrdeistref sirol. Y cynnydd % mewn derbyniadau gofal plant cyfrwng Cymraeg. 	
<p>Canlyniadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mwy o bobl yn ymgysylltu â'r Gymraeg. Mwy o bobl yn dod yn rhugl yn y Gymraeg. Mwy o weithwyr y Cyngor yn gallu defnyddio'r Gymraeg. 	
Cyfeirnod Cam Gweithredu	Cam Gweithredu
Cam Gweithredu 1.1	Mapio a hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg/dwyieithog anffurfiol a ddarperir ym Mlaenau Gwent trwy ystod o sianeli h.y. gwefan, cyfryngau cymdeithasol, posterï ac ati.
Cam Gweithredu 1.2	Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu mwy ffurfiol h.y., cwrs Mynediad ac ati.
Cam Gweithredu 1.3	Hyrwyddo cyfleoedd hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg.
Cam Gweithredu 1.4	Hyrwyddo a gwerthuso sianeli mynediad (h.y., gwefan, cyfryngau cymdeithasol, C2BG ac ati) i wasanaethau awdurdod lleol trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg.
Cam Gweithredu 1.5	Cynyddu nifer y plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n datgan eu dewis iaith (Cymraeg/Saesneg/dwyieithog) mewn perthynas â'r modd y maent yn ymgysylltu â gwasanaethau cynghorau lleol.
<p>Partneriaid: Byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid canlynol i gyflawni'r amcan hwn: Plant, pobl ifanc ac oedolion ym Mlaenau Gwent, Coleg Gwent, Parth Dysgu Blaenau Gwent, Dysgu Cymraeg Gwent, Menter Iaith, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Fforwm Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cyngor Blaenau Gwent, RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg), Fforwm Ieuenctid Cymraeg, Urdd Gobaith Cymru, Clwb yr Urdd Ysgol Gyfun Gwynllyw, Grŵp Deddf, Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol, Pob Ysgol, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg</p>	

Plant a Phobl Ifanc	
Amcan 2: <i>Cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol i blant a phobl ifanc</i>	
Dangosydd(ion): <ul style="list-style-type: none"> Nifer y plant mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Cyfraddau trosglwyddo o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. 	
Canlyniadau: <ul style="list-style-type: none"> Mwy o bobl yn ymgysylltu â'r Gymraeg. Mwy o bobl yn dod yn rhugl yn y Gymraeg. Mwy o weithwyr y Cyngor yn gallu defnyddio'r Gymraeg. 	
Cyfeirnod Cam Gweithredu	Cam Gweithredu
Cam Gweithredu 2.1	Cynyddu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gynigir i ysgogi galw gan rieni.
Cam Gweithredu 2.2	Cynyddu cyfraddau trosglwyddo o ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg.
Cam Gweithredu 2.3	Codi proffil a lefelau cyfranogiad ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.
Cam Gweithredu 2.4	Hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg/dwyieithog allgyrsiol a chyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
Cam Gweithredu 2.5	Hyrwyddo cyfleoedd i rieni/gofalwyr/neiniau a theidiau/mam-guod a thad-cuod wella eu sgiliau Cymraeg/dwyieithog i gefnogi eu plant drwy addysg Gymraeg/dwyieithog.
Partneriaid: Byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid canlynol i gyflawni'r amcan hwn: Plant, pobl ifanc ac oedolion ym Mlaenau Gwent, Coleg Gwent, Parth Dysgu Blaenau Gwent, Dysgu Cymraeg Gwent, Menter Iaith, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Fforwm Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cyngor Blaenau Gwent, RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg), Fforwm Ieuenctid y Gymraeg, Grŵp Deddf, Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol, Pob Ysgol, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg	

Cymraeg yn y Gweithle	
Amcan 3: Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle	
Dangosydd(ion):	
<ul style="list-style-type: none"> Nifer y staff a gyflogir gan sefydliadau partner sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg. Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn annog sgiliau Cymraeg 'hanfodol', 'dymunol' a 'barod i ddysgu'. 	
Canlyniadau:	
<ul style="list-style-type: none"> Mwy o bobl yn ymgysylltu â'r Gymraeg. Mwy o bobl yn dod yn rhugl yn y Gymraeg. Mwy o weithwyr y Cyngor yn gallu defnyddio'r Gymraeg. 	
Cyfeirnod Cam Gweithredu	Cam Gweithredu
Cam Gweithredu 3.1	Cynyddu nifer y gweithwyr sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg drwy hyfforddiant a'u hannog i wisgo'r bathodynau 'Dysgu' i helpu dysgwyr Cymraeg yn gymdeithasol a gwella eu hyder.
Cam Gweithredu 3.2	Annog gweithwyr sy'n siarad Cymraeg i wella eu rhuglder yn y Gymraeg drwy hyfforddiant a'u hannog i wisgo'r bathodynau 'Cymraeg' i helpu i hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog.
Cam Gweithredu 3.3	Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chyrtsiau hyfforddiant iaith ac annog mwy o weithwyr i fynychu'r rhain.
Cam Gweithredu 3.4	Darparu ystod o ganllawiau a deunyddiau cymorth i gynyddu ymgysylltiad a hyder yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
Action 3.5 Gweithred 3.5	Cefnogi pob adran i weithredu safonau'r Gymraeg yn effeithiol yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor.
Cam Gweithredu 3.6	Monitro'n effeithiol y swyddi a hysbysebwr o fewn y Cyngor sy'n mynd drwy'r broses asesu'r Gymraeg.
Cam Gweithredu 3.7	Darparu cyfleoedd anffurfiol i gydweithwyr ymgysylltu â'i gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cam Gweithredu 3.8	Cynyddu sgiliau Cymraeg staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â strategaeth Mwy na geiriau 2022/27.
Partneriaid: Byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid canlynol i gyflawni'r amcan hwn:	

Gweithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau, Menter Iaith, Coleg Gwent, Parth Dysgu Blaenau Gwent, Dysgu Cymraeg Gwent, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Grŵp Deddf, Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol, holl staff ysgolion, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

11. Trefniadau Monitro

Byddwn yn olrhain ein cynnydd yn erbyn cyflawni'r cynllun drwy ystyried ystod o ddata perfformiad, gan gynnwys adolygiad o'r dangosyddion allweddol yr ydym wedi'u nodi yn ein strategaeth bob chwarter, gan gynnwys gwybodaeth a ddarparwyd drwy ein trefniadau cynllunio busnes.

Bydd hyn yn cael ei fonitro gan Rwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol/Cymraeg newydd sydd i'w sefydlu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ddaau faes polisi statudol hyn. Bydd cynrychiolaeth ar y grŵp yn cynnwys rheolwyr canol i uwch o feysydd gwasanaeth allweddol, gan gynnwys yr Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg, sy'n allweddol i'n cefnogi i gyflawni ein hamcanion trwy weithredu ac a fydd yn atebol am sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei ofynion o dan y Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Bydd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol/Cymraeg yn gweithio ochr yn ochr â Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent a bydd hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth helpu i fonitro perfformiad bob chwarter yn ogystal â gweithredu fel y grym ar gyfer cefnogi cyflawni ein cynlluniau gweithredu dros y pum mlynedd nesaf.

Hefyd, bydd Fforwm Cymraeg mewn Addysg y Cyngor sy'n monitro gweithrediad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022/32 yn darparu data perfformiad allweddol (megis monitro'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg) i'w hadolygu. Mae hyn hefyd yn cael ei adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru, gydag adroddiadau'n cael eu cymryd drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor yn flynyddol, yn ogystal â Bwrdd Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a'r Fforwm Derbyn.

Bydd ein holl wybodaeth perfformiad chwarterol yn cael ei chasglu a'i defnyddio i lywio ein Hadroddiad Monitro Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg (Safonau'r Gymraeg 158, 164 a 170) sydd i'w gyhoeddi ym mis Mehefin bob blwyddyn hyd at 2027. Bydd yr adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'w adolygu drwy ein trefniadau proffesiynol a democrataidd, gan gynnwys ein Tîm Arwain Corfforaethol a'r broses graffu drwy'r Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol a'r Cabinet fel rhan o'u rhaglenni gwaith blynyddol.

Asesiad o Amcanion a Chamau Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017-2022

(Casglwyd Tystiolaeth/Data o WESP, Adroddiadau Blynyddol BG 2016-2022, adborth Partneriaethau)

Amcan 1 – Byddwn yn hybu ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a'r gymuned

Cam gweithredu 1:1 - Hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg/dwyieithog anffurfiol a ddarperir ym Mlaenau Gwent trwy ystod o sianeli h.y. gwefan, cyfryngau cymdeithasol, posteri ac ati.

Cam gweithredu 1:2 – Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu ffurfiol h.y. Cwrs Mynediad ac ati.

Cam gweithredu 1:3 – Hyrwyddo cyfleoedd hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cam gweithredu 1:4 – Hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn unol ag e.e. canllawiau cenedlaethol fel 'Mwy na geiriau...'

Cam gweithredu 1:5 - Hyrwyddo a gwerthuso sianeli mynediad (h.y. gwefan, cyfryngau cymdeithasol, C2BG ac ati) i wasanaethau awdurdodau lleol trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Cam gweithredu 1:6 - Cynyddu nifer y plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n datgan eu dewis iaith (Cymraeg/Saesneg/dwyieithog) mewn perthynas â sut maent yn ymgysylltu â gwasanaethau cynghorau lleol.

Er mwyn annog defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned mae angen i ni sicrhau bod yr iaith yn weladwy ac yn hygyrch o fewn yr ardal. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni, fel y nodir

yng Ngham Gweithredu 1:5 'werthuso sianeli mynediad i wasanaethau awdurdodau lleol yn unol â safonau'r Gymraeg'. Gweithredwyd hyn gydag adolygiad manwl o wefan Blaenau Gwent, gyda phob tudalen ac is-adrannau'n cael eu gwerthuso. Sicrhaodd y gwerthusiad hwn fod yr holl dudalennau a dogfennau cysylltiedig ar gael yn Gymraeg gyda chyfieithiad priodol. Tynnwyd sylw at unrhyw feysydd a fethodd â chyflwyno eu gwybodaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg a'u hanfon at eu penaethiaid adran priodol i'w diwygio ar unwaith. Mae hon wedi'i bwriadu fel proses barhaus nid yn unig o safbwynt deddfwriaethol ond hefyd awydd i wneud ein fersiwn Gymraeg o'r wefan mor hawdd ei defnyddio â phosibl. Felly annog defnyddwyr Cymraeg i ddewis fersiwn cyfrwng Cymraeg y wefan.

Yn fewnol mae'r 'Canllawiau Iaith Gymraeg' ar y Fewnwyd wedi'i ddiweddarau yn ystod y 6 mis diwethaf i'w wneud yn haws ei ddefnyddio i'r rhai sydd ag ychydig o allu yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau i'r 'Ddogfen Trosolwg Safonau' i adlewyrchu gweithdrefnau wrth i ni symud i'r model gweithio o gartref yr ydym wedi'i fabwysiadu ar gefn y Pandemig COVID-19. Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau nad yw ein darpariaeth gwasanaeth yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol. Mae'r gweithdrefnau ffôn hefyd wedi'u gwerthuso a'u datblygu i sicrhau dull rhagweithiol o ddefnyddio ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Derbyniodd aelodau staff y ganolfan alwadau hyfforddiant mewnol gan y Swyddog Cymorth Iaith Gymraeg yn blaenoriaethu cydymffurfiaeth â Safonau 8-22. Roedd yr hyfforddiant hwn yn ymdrin â sut i wneud ac ateb galwadau yn effeithiol gan hyrwyddo'r opsiwn i barhau â'r alwad/mynediad at y gwasanaeth yn Gymraeg, yn ogystal â Chymraeg sgwrsio cyffredinol i'w defnyddio wrth ryngweithio ag aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

O ran hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg anffurfiol rydym wedi nodi hwn fel maes i adeiladu arno. Mae darpariaeth mewn lle ar gyfer y gweithgareddau hyn ac mae llawer o waith wedi bod ac yn parhau i gael ei wneud gan ein partneriaid i ddarparu cyfleoedd i deuluoedd a'r gymuned ddefnyddio'r Gymraeg. Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn darparu ystod o weithgareddau hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg, mae cymdeithas Gymraeg yn ei lle (Cymdeithas Gymraeg Blaenau Gwent) sy'n hyrwyddo gweithgareddau trwy'r cyfryngau cymdeithasol, mae Menter Iaith yn cynnal nifer o weithgareddau trwy gydol y flwyddyn o deithiau cerdded natur i gwisiau i enwi ychydig. Er gwaethaf y nifer fawr o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol wrth adolygu ein sefyllfa yn erbyn Amcan 1 rydym yn cydnabod yr angen i fapio a monitro'r cyfleoedd hyn er mwyn eu hyrwyddo'n effeithiol.

Mae hyn wedi'i ymgorffori yng nghynllun 2022-2027 ac mae'n gam allweddol i'w gymryd wrth symud ymlaen. Byddwn yn cyflawni hyn drwy gryfhau ein partneriaethau presennol a gwahodd darpar bartneriaid i chwarae rhan yng ngweithrediad ein hamcanion newydd dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r cyngor wedi ailsefydlu rôl Swyddog Cefnogi'r Gymraeg yn ddiweddar, ac o'r herwydd mae ganddo'r ddarpariaeth i gael presenoldeb mwy cyson gyda Fforwm Rhwydwaith Cymraeg BG, a'i nod yw cydweithio'n fwy â'r cynghorau cyfagos wrth i ni weithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-2027. Ein nod yw cael diweddariadau ar Strategaeth Hyrwyddo 2022-2027 (er enghraifft, diweddariad calendr gweithgarwch Cymraeg) fel eitem statudol ar yr agendâu wrth gyfarfod â'n partneriaid. Bydd hyn yn gymorth i nodi llwyddiannau yn erbyn ein hamcanion, ac unrhyw feysydd heriol wrth i ni symud ymlaen er mwyn eu cywiro cyn gynted ag y dônt yn amlwg.

Amcan 2 - Cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol i blant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.

Cam gweithredu 2:1 - Cynyddu'r ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar i ysgogi'r galw gan rieni.

Cam gweithredu 2:2 - Cynyddu cyfraddau trosglwyddo o ddarpariaeth feithrin cyfrwng Gymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg.

Cam gweithredu 2:3 – Codi proffil a lefelau cyfranogiad dysgwyr cyfrwng Gymraeg.

Cam gweithredu 2:4 – Gwella canlyniadau dysgwyr cyfrwng Gymraeg.

Cam gweithredu 2:5 - Gweithio'n rhanbarthol gydag Awdurdodau Lleol De-ddwyrain Cymru a hyrwyddo cyfleoedd cyfrwng Gymraeg mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch.

Cam gweithredu 2:6 - Hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol Gymraeg/dwyieithog a chyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc o ysgolion cyfrwng Gymraeg a Saesneg.

Cam gweithredu 2:7 - Hyrwyddo cyfleoedd i rieni/gofalwyr/neiniau a theidiau/mam-guod a thad-cuod wella eu Cymraeg/sgiliau dwyieithog.

Dros gyfnod pum mlynedd Cynllun Iaith Gymraeg 2017-2022 mae tystiolaeth gyson bod y ddarpariaeth a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc yn cynyddu ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg. Mae hybu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r cyfleoedd i hybu'ch dysgu a defnyddio'ch sgiliau presennol yn cael ei hyrwyddo i rieni o gamau cynnar bywyd eu plentyn gan ddechrau gyda rôl ymwelwyr iechyd.

Mae gan Ymwelwyr Iechyd fynediad i fodiwlau ar-lein trwy ein Darpariaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a gellir darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn fewnol ar gais yn ogystal â chyrsgiau Cymraeg am ddim. Fe'i gwneir yn glir mai rôl yr Ymwelwyr Iechyd yw darparu gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg drwy gyfeirio rhieni newydd at y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth am y gofal plant, meithrinfa a gweithgareddau anffurfiol fel y gwasanaethau Cymraeg i Blant sydd ar gael. Ymhellach, darparu bagiau llyfrau Cymraeg Dechrau da i rieni newydd er mwyn annog y defnydd o'r Gymraeg fel teulu a chyfrannu at y niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth Cymraeg i Blant.

Mae Cymraeg i Blant yn brosiect Mudiad Meithrin sydd wedi bod yn tyfu ers cyhoeddi Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017-2022. Maen nhw'n cynnig ystod o ddsbarthiadau wythnosol fel, amser Rhigwm ac arwyddo Cymraeg, Tyllino Babanod ac ioga, Paned a Chymraeg (ar-lein) a sesiynau Fi a fy mabi i ddarpar rieni a rhieni newydd ar fanteision bod yn ddwyieithog (ar-lein) a mwy. Yn ystod y tair blynedd diwethaf bu cynnydd sylweddol o 229% yn nifer y grwpiau a gynigir, gyda rhagolygon o gynnydd pellach gyda datblygiad grŵp Meithrin ychwanegol yn Nhredegar.

Bu tueddiad pum mlynedd cyson ar i fyny yng nghanran y lleoedd meithrin cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ym Mlaenau Gwent. O'r lleoedd hyn, bu tuedd debyg o ran cynnydd o leoedd yn cael eu llenwi, gan godi o 3% yn 2017 i 6% yn 2021 o'r garfan. Felly, mae'n amlwg y bu mwy o ymgysylltu â'r ddarpariaeth blyneddoddd cynnar (Data PLASC Ionawr 2021). Mae hyn yn arwydd clir o gyflawniad Cam Gweithredu 2:2 o Gynllun Hyrwyddo'r Gymraeg 2017-22 i 'gynyddu'r ddarpariaeth blyneddoddd cynnar' i ysgogi galw rhieni.' Mae'r lleoedd sydd ar gael ar ôl yn fras wedi sefyll ar 3% sy'n nodi bod yna ar hyn o bryd ddigon o gapasiti i fodloni galw rhieni o fewn y lleoedd meithrin cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ym Mlaenau Gwent. Yn ogystal, roedd cyfraddau trosglwyddo rhwng cynradd ac uwchradd ar gyfer 2019/20 yn 100%.

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar 16 Ionawr 2018 y byddai £30 miliwn yn cael ei ddyrannu i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymroddedig i'r Gymraeg mewn addysg ac yn ehangu arni. Dechreuwyd y broses ymgeisio am grant ym mis Mawrth 2018. Derbyniodd Cyngor Blaenau Gwent gadarnhad ym mis Hydref 2018 eu bod wedi llwyddo i sicrhau £6 miliwn i greu darpariaeth gynradd ychwanegol.

Yn dilyn goblygiadau refeniw, gohiriwyd y prosiect yn gynnar yn 2019 tra'n aros am drafodaethau rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Yna roedd modd cychwyn y broses Ymgynghori ym mis Rhagfyr 2020 hyd at fis Ionawr 2021 ar ôl adolygiad ariannol, penderfynwyd mewn cyfarfod anffurfiol o'r Tîm Gweithredol/Arwain Corfforaethol ym mis Chwefror 2020 y gallai'r prosiect symud ymlaen i'r cam ymgynghori statudol - yn amodol ar adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith yn nhyrnor yr hydref 2020. Roedd ymateb y broses ymgynghori yn gadarnhaol o blaid datblygiad yr ysgol newydd gyda 93% o'r ymatebion i'r e-

bost a'r arolwg yn nodi eu cefnogaeth i'r cynnig. (8 e-bost a 190 arolwg). Mae disgwyl i'r ysgol gynradd hon agor ym mis Medi 2023 gan dderbyn 210 o fyfyrwyr, cam nad oes angen dweud a fydd yn cyfrannu at ein targed pum mlynedd.

Credwn ein bod mewn sefyllfa dda ar gyfer dilyniant o ystyried y ffactorau uchod ac anelwn at ddefnyddio ein llwyddiannau fel sbardunau ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol i blant a phobl ifanc. Bydd ein gwelliannau o ran mapio'r gweithgareddau sydd ar gael yn y maes a nodir yng Ngham Gweithredu 1:1 o Strategaeth Hyrwyddo 2022-2027 hefyd yn chwarae rhan wrth lwyddo gyda'r amcan hwn. Gan ddefnyddio'r mapio byddwn yn gallu nodi meysydd lle mae llai o ymgysylltu â gweithgareddau cymdeithasol anffurfiol a thargedu'r meysydd hynny sy'n arwain at ysgogi diddordeb rhieni mewn Addysg cyfrwng Cymraeg.

Amcan 3 - Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Cam gweithredu 3:1 – Cynyddu nifer y gweithwyr sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg a'u hannog i wisgo'r bathodyn 'Dysgwr' a bathodynnau i helpu dysgwyr Cymraeg yn gymdeithasol a gwella eu hyder.

Cam gweithredu 3:2 - Annog gweithwyr i wella eu rhuglder yn y Gymraeg a'u hannog i wisgo'r bathodynnau 'Cymraeg' i helpu i hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog.

Cam gweithredu 3:3 - Hyrwyddo cyrsiau hyfforddi Cymraeg ac annog mwy o weithwyr i fynychu'r rhain.

Cam gweithredu 3:4 - Darparu amrywiaeth o ganllawiau a deunyddiau cymorth i gynyddu ymgysylltiad a hyder yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Cam gweithredu 3:5 - Cefnogi pob adran i weithredu safonau'r Gymraeg yn effeithiol yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg y Cyngor.

Cam gweithredu 3:6 - Monitro'n effeithiol y swyddi o fewn y Cyngor a hysbysebir sy'n mynd drwy broses asesu y Gymraeg.

Cam gweithredu 3.7 - Hyrwyddo mwy o gyfleoedd i gydweithwyr ymgysylltu â'i gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn unol â Safon 127 datgan bod rhaid i gorff 'asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion' a thrwy ddogfennu olrhain hyn yn ei Adroddiad Blynyddol yn unol â Safon 170. O edrych ar y data hwn gallwn weld rhywfaint o arwydd o'r dilyniant yn y cyfleoedd darparu i staff ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yng ngweithle Cyngor Blaenau Gwent.

Yn dilyn cyflwyno'r strategaeth hyrwyddo, 2017, gwelsom gynnydd, 3%, yn nifer y gweithwyr sydd wedi categorioedd eu hunain fel rhai sy'n gallu siarad, ychydig, yn gymedrol, yn eithaf da neu'n rhugl, o'r adroddiad blynyddol blaenorol yn 2016. Nid yw adroddiad blynyddol 2017-2018 yn nodi dewis iaith. Roedd yr adroddiad canlynol, 2018-2019, yn nodi, ar System Datblygu Sefydliadol iTrent y cynghorau, bod gan 3 gweithiwr ddewis iaith fel y Gymraeg. Yn 2019-2020 gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer hwn gyda 12 o weithwyr ychwanegol yn nodi dewis iaith Gymraeg. Ers y cynnydd hwn, mae system hunanwasanaeth wedi'i chyflwyno sy'n galluogi staff i newid eu dewis iaith yn rhwydd. Yn ystod y blynyddoedd dilynol gwelwyd nifer cyson o weithwyr â galluoedd siarad Cymraeg.

Yn aros ar 19% cyson o'r corff staff. Ers 2016, mae pob rôl o fewn y cyngor yn cael ei hysbysebu fel Sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol. Mae hwn wedi parhau i fod yn bolisi trwy gydol y cynllun hyrwyddo 5 mlynedd. Mae nifer o rolau (25) wedi cael eu hysbysebu fel y Gymraeg yn hanfodol. Yn 2021, cofrestrodd y Tîm Polisi a Phartneriaeth, o dan eu hymrwymiad i gefnogi Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, ar raglen brentisiaeth Cynllun Kickstart i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc ennill sgiliau a phrofiad uniongyrchol yn y sector cyhoeddus. Gan gydnabod pwysigrwydd a'r angen am gymorth gyda'r Gymraeg, cyflwynwyd rôl swyddog cymorth iaith Gymraeg dan hyfforddiant. Yn dilyn ei lwyddiant ers hynny mae hon wedi dod yn rôl cyfnod penodol o fewn y cyngor ei hun.

Er bod hyfforddiant wedi'i hyrwyddo'n gyson drwy gydol y cyfnod hwn o bum mlynedd, ychydig iawn o bobl sy'n cymryd rhan mewn sesiynau ar-lein gyda chyfartaledd o 1-2 aelod o staff yn defnyddio'r cyfleoedd hyfforddi hyn yn ystod y cyfnod hwn o bum mlynedd. Er bod hyfforddiant mewnol wedi'i ddarparu i 19 aelod staff yn 2022 a oedd yn blaenoriaethu gweithrediad effeithiol y weithdrefn ffôn wedi'i diweddarau, dywedwyd bod diweddariadau'n dod i rym pan gaiff y canllawiau ar y Gymraeg i staff eu diweddarau. Yn 2018, yn unol â cham gweithredu 3:4 o Strategaeth Hyrwyddo 2017-2022, cyhoeddwyd 'ystod o ganllawiau a deunyddiau cymorth i gynyddu ymgysylltiad a hyder yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle' yn fewnol. Ers hynny mae'r canllawiau hyn wedi'u diwygio i wneud yn siŵr bod y cynnwys yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith yn y gweithle gyda gwell hygyrchedd.

Gan ymgorffori'r sleidiau o'r sesiynau hyfforddi yn y weithdrefn 'Ateb y Ffôn', mae'r rhain yn cynnwys dau recordiad o'r holl ymadroddion allweddol, fersiwn sy'n cael ei hadrodd yn araf sy'n pwysleisio synau ac ynganiad allweddol a'r ymadrodd a siaredir ar gyflymder arferol. Yn yr un modd, rydym hefyd wedi ymgorffori ffeiliau sain yn ein dogfennau 'Cyfarchion Dwyieithog' ac 'Ymadroddion Defnyddiol', ochr yn ochr â sillafiadau ffonetig. Mae staff wedi rhoi adborth ar y diweddariadau hyn sydd o fudd i gefnogi dysgu a chynyddu lefelau hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy effeithiol.

Wrth asesu ein cynnydd yn erbyn y camau gweithredu sydd ar waith dros y pum mlynedd diwethaf, mae yna ddangosyddion clir i ddangos lle mae angen i ni wella ein hyrwyddiad, y prif ddangosydd yw'r ymgysylltiad isel â chyfleoedd hyfforddi. Tra bod gan Flaenau Gwent yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Hydref 2020 i Medi 2021) y ganran isaf o siaradwyr Cymraeg, sef 15.5% yn unig, mae gennym ar hyn o bryd 19% o'n staff yn nodi bod ganddynt rywffaint o allu yn y Gymraeg. Rydym am dargedu'r rhai sydd eisoes wedi datgan unrhyw lefel o allu ar gyfer cyrsiau gloywi a magu hyder ar y sail bod staff yn mynegi pryder i ddefnyddio eu hiaith wrth iddynt deimlo eu bod wedi 'colli'r arfer'.

Yn union felly, teimlwn fod angen mwy o hyrwyddiad i gyrsiau ar gyfer y rhai heb allu. Gellir dadlau y byddai hybu ymwybyddiaeth o Safon 130 sy'n datgan bod y cyfleoedd hyfforddi hyn i'w darparu yn ystod oriau gwaith o fudd i gynyddu nifer y mynychwyr gan nad yw'r cyfrifoldeb i ddod o hyd i'r amser i gwblhau hyfforddiant yn dod o fewn eu hamser rhydd. Bydd cynnydd mewn hyfforddiant yn ei dro yn cyfrannu at y defnydd o fathodynau 'Dysgwr' a 'Cymraeg', cortynnau gwddf a chefnidir Microsoft Teams wrth i hyder i ddefnyddio'r iaith gynyddu fel y cyfryw gyfrannu at gyflawni Camau Gweithredu 3:1 a 3:2 o 2017 - strategaeth 2022.

Asesiad Ansoddol – Fforwm Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent

1) A oes gennych unrhyw adborth neu sylwadau ynglŷn â strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg cyfredol 2017-2022?

- *Cydnabuwyd bod mwy o bwyslais wedi bod ar hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac arwyddion dwyieithog ers i'r safonau ddod i rym.*
- *Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r grŵp yn ymwybodol o fodolaeth strategaeth ffurfiol.*
- *Rydym wedi ychwanegu rhanddeiliaid at y rhestr i adolygu'r cynllun newydd.*
- *Mae gweithlu BG wedi penodi Swyddog Cymorth Iaith Gymraeg ac felly bydd gennym gapasiti pellach ar gyfer ymgysylltu.*
- *Gwneud ein partneriaid yn fwy ymwybodol o'r dangosyddion i sicrhau bod Strategaeth y cynllun yn cael ei hystyried yn gyson drwy gydol y cyfnod 5 mlynedd. Adolygiad o gynnydd i'w gynnwys ar agendâu Cyfarfodydd Rhwydwaith BG*

- *Mae trosiant staff uchel o lawer o bartneriaid wedi ei gwneud yn anodd cynnal momentwm*
- *Angen targedau mesuradwy a gwerthusiad cyson o gynnydd y strategaeth. Dylai'r fforwm iaith flaenoriaethu'r gwaith hwn.*

- *Mae Strategaeth 2022-2027 yn cynnwys targedau mwy mesuradwy gyda dangosyddion at ddibenion monitro. Cydweithio gyda Fforwm Cymru i ddatblygu systemau monitro ar y cyd, gyda diweddariadau yn cael sylw yn y cyfarfodydd.*

- *Dogfen ddiddorol gyda llawer o syniadau da. Fodd bynnag: Dim manylion am sut i fynd ati'n ymarferol at yr amcanion a'r camau gweithredu e.e. Mae Amcan 2 yn nodi "Cynyddu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgogi galw rhieni"*
Mae'r galw eisoes wedi'i brofi yn ardal Tredegar. Gwnaethpwyd penderfyniad hefyd bod angen Cylch Meithrin newydd yn yr ardal. Pam felly nad yw hyn wedi digwydd a pham nad yw'r Cyngor yn cefnogi'r datblygiad. A pham nad yw hyn yn cael ei grybwyll yn y Strategaeth?
- *Mae'r ddarpariaeth wedi'i chynyddu (gan gynnwys sefydlu Cylch Meithrin yn Nhredegar) ac mae gwybodaeth fanwl bellach ar gael yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac wedi'i harchwilio yn Atodiad Asesiad Strategaeth Hyrwyddo 2017-2022, ac mae camau gweithredu pellach wedi'u cynnwys o fewn Cynllun newydd 2022-2027.*

- *Roedd penderfyniad eisoes wedi'i wneud i agor ail ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Tredegar fel ysgolion newydd ar gyfer Bro Helyg. Beth am sôn am hyn yn y strategaeth. Mae'n rhaid cynnwys yr amserlen ar gyfer y datblygiad hwn yn y strategaeth.*

- *Cyhoeddwyd y cynllun blaenorol yn 2017. Dechreuwyd y broses o wneud cais am grant ar gyfer ariannu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym mis Mawrth 2018. Derbyniodd Cyngor Blaenau Gwent gadarnhad, Hydref 2018, eu bod wedi llwyddo i sicrhau £6 miliwn i greu darpariaeth gynradd ychwanegol. Bwriedir agor ym mis Medi 2023 gan dderbyn 210 o blant. O'r herwydd, mae'r datblygiad hwn wedi'i gynnwys yng Nghynllun Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-2027.*

- *Siomedig, diffyg cydnabyddiaeth o fodolaeth CYMDEITHAS GYMRAEG BLAENAU GWENT a sefydlwyd ar ôl Penaethiaid Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2010. Mae'r grŵp wedi bod yn cyfarfod yn fisol ers hynny hyd at fis Mawrth 2020. Byddai ychydig o gefnogaeth gan y Cyngor yn mynd yn bell.*
- Rydym yn cydnabod y gwaith ymroddedig a chyson ar gyfer Cymdeithas Gymraeg Blaenau Gwent ac yn bwriadu ymwneud mwy â'u gwaith.
- *TEULUOEDD A CHYMUNEDAU - Enwir Coleg Gwent ond nid oes sôn am yr holl ddsbarthiadau Cymraeg amrywiol sy'n cael eu cynnal ar draws y Fwrdeistref na'r cynnydd yn y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg. I mi does dim pwynt cael strategaeth os nad yw'n cydnabod y gwaith sydd eisoes yn digwydd ac mae'r un peth yn wir am yr Urdd a'r Fenter Iaith.*
- Mae'r cynnydd mewn cyfleoedd dysgu Cymraeg yn cael ei archwilio yn y strategaeth hyrwyddo newydd.
- *Os ydynt yn anelu at sicrhau 70 o siaradwyr Cymraeg Newydd yn flynyddol am y 33 mlynedd nesaf RHAID i'r Strategaeth fanylu ar y camau gweithredu. Dyddiadau'r Strategaeth yw 2017 - 2022. Flwyddyn yn ddiweddarach i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a dim cofnod o'r hyn a gyflawnwyd eisoes.*
- Gellir cymryd i ystyriaeth diffyg cofnodion yn ystod Pandemig COVID-19 i ryw raddau, ond rydym yn cydnabod diffygion yn y monitro mewn rhai meysydd o'r cynllun. Rydym yn rhoi camau monitro ar waith i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei hystyried yn gyson o fewn y gwaith a'i hadolygu drwy gydol ei chyfnod o bum mlynedd.

2) A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer targedau penodol ar gyfer y meysydd canlynol:

- Y teulu
- Defnydd Cymunedol
- Seilwaith (polisiau)
- Plant a phobl ifanc
- Y gweithle

A oes angen inni flaenoriaethu agwedd benodol ar y strategaeth?

- *Blaenoriaethu'r gweithle fel nad oes rhaid i oedolion ddefnyddio eu hamser sbâr i ddysgu'r iaith. Serch hynny, mae'n rhaid i gyflogwyr roi amser i'r gweithwyr fynychu'r dosbarth a byddai'n wych wedyn cynnal clybiau anffurfiol yn y gweithle i bobl ymarfer a chymdeithasu yn y Gymraeg. Mae angen cyfathrebu gyda rheolwyr lefel uchel i flaenoriaethu a galluogi staff i fynychu gwersi dros y tymor hir.*
- *Nodwyd bod angen blaenoriaethu'r gweithle – nodwyd gan rai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus bod pethau wedi gwella ers 2017 ond mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio a dysgu Cymraeg yn y gwaith er bod mwy o gyfleoedd ar gael ar-lein.*

- *Angen mwy o ddigwyddiadau cymunedol e.e. siaradwyr gwadd, tripiâu, dawnsio gwerin, gwersi coginio ac ati.*
- Rydym yn bwriadu cynyddu ein hymwneud â'n rhwydweithiau cymunedol Cymraeg er mwyn cynyddu'r hyrwyddiad a'r presenoldeb i'r cyfleoedd sydd eisoes ar gael.
- *Hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg - mae angen i'r Strategaeth newydd fod yn gyson â nodau ac amcanion y WESP newydd.*
- Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi bod yn gynllun allweddol yn natblygiad y Cynllun Hyrwyddo'r Gymraeg newydd 2022-2027 gan ddefnyddio ffigurau/gwybodaeth y gorffennol, rhagamcanion ar gyfer y dyfodol a sut maent yn bwriadu cyflawni'r amcanion hyn i lunio ein cynllun.
- *Cydweithio rhwng partneriaid yn targedu ardaloedd penodol a chynnal digwyddiadau cymunedol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg – cawsom niferoedd da ar gyfer Haf o Hwyl ym Mharc Bryn Bach ond ymgysylltu ar-lein gwannach ym Mlaenau Gwent o gymharu ag ardaloedd cyfagos.*
- Rydym wedi gwerthuso'r partneriaid yr ydym eisoes yn gweithio gyda nhw ac wedi nodi meysydd allweddol sydd angen cymorth, megis Mudiad Meithrin a Dysgu Cymraeg i ymgysylltu rhieni di-Gymraeg ag addysg Gymraeg. Hyrwyddo manteision yr iaith a'r gefnogaeth y gallant ei chael fel y di-Gymraeg i annog defnydd o gyfleusterau Addysg Gymraeg.
- *Angen gwneud rhieni'n ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael i rieni a sut y gall mynychu gweithgareddau allgyrsiol a chymunedol helpu eu plant i ddatblygu eu hyder a'u gallu i siarad yr iaith - mae'n bwysig bod y gweithgareddau yn hygyrch ac yn agored i rieni di-Gymraeg.*
- Mae Swyddog Cymraeg i Blant yn gweithio'n agos gyda thimau Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd Lleol, gan gyfeirio rhieni at y grwpiau, a'r ddarpariaeth gyffredinol sydd ar gael iddynt. Dros y pum mlynedd nesaf bwriadwn hyrwyddo'r ddarpariaeth hon ymhellach a ffurfio cysylltiadau rhwng partneriaid i gryfhau'r hyrwyddiad a'r gefnogaeth ei hun sydd ar gael i rieni.
- *Mae angen cymorth ar grwpiau cymunedol sydd eisiau ailsefydlu yn y cyfnod ôl-COVID-19 – mae llawer o bobl wedi dechrau dysgu Cymraeg yn ystod y pandemig ond angen gofod cymdeithasol i ddefnyddio'r iaith. O bosibl sefydlu cronfa gymunedol ar gyfer grwpiau?*
- Rydym wedi ystyried yr effaith a gafodd pandemig COVID-19 ar y cynnydd mewn dysgu ar-lein a'n nod yw defnyddio'r camau yn y cynllun sydd i ddod i hyrwyddo'r grwpiau cymunedol sy'n targedu dysgwyr a'r rhai sydd am ymarfer eu sgiliau ymhellach.
- *Angen mapio cyfleoedd i bobl ifanc yn rheolaidd a sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gweithio gyda thrawstoriad eang o bartneriaid sy'n gallu darparu gwasanaethau.*

- Mae hwn yn faes rydym yn ei flaenoriaethu, rydym am hwyluso monitro cyfleoedd Cymraeg, ffurfiol ac anffurfiol ar draws yr holl bartneriaid. Y camau cyntaf wrth wneud hynny fydd cadw tracio ymgysylltu fel eitem statudol ar agendâu Fforymau Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent.

3) Oes gennych chi unrhyw syniadau neu awgrymiadau ar sut i newid agweddau tuag at y Gymraeg?

- *Anodd, ond yn gyffredinol, drwy geisio normaleiddio'r iaith, efallai drwy gynnal digwyddiadau yn y gymuned yn ogystal â thu ôl i ddrysau caeedig, fel petai – rwy'n ymwybodol bod hyn yn digwydd yn barod.*
- O fewn y Cyngor byddwn yn hyrwyddo'n barhaus y defnydd o Gymraeg sgysiol ymhlith cydweithwyr, gan gynnwys y rhai sydd ag ychydig iawn o allu ac yn hyrwyddo sut y gellir trosglwyddo hyn yn ystod digwyddiadau cymunedol. Ar ôl ystyried sylwadau gan ddefnyddwyr y Gymraeg o fewn y Cyngor sy'n teimlo'n bryderus ynghylch defnyddio'r iaith os nad ydynt yn ymarfer, rydym yn anelu at hyrwyddo ymagwedd gadarnhaol a chefnogol at ddefnyddio'r iaith ym mhob lleoliad ym Mlaenau Gwent.
- *Creu fideos hyrwyddo, Saesneg eu hiaith, dangos hanesion pobl yr ardal sydd â chysylltiadau â'r iaith, hyd yn oed yn hanesyddol a dangos pobl leol yn siarad am eu balchder o'r iaith - astudiaeth achos o ffilm o'r fath. Arddangos nhw yn y gymuned ac ar YouTube ac ati.*
- *Creu deunyddiau am hanes yr ardal, sy'n pwysleisio pwysigrwydd yr iaith yno yn hanesyddol. Dangos unigolion sydd â hanes yn yr ardal, sydd efallai wedi colli'r iaith ond sydd bellach wedi adennill eu Cymraeg. Unrhyw beth sy'n dangos pobl leol yn ail-afael yn yr iaith ac felly'n dangos ei bod yn dal yn berthnasol i bobl yr ardal.*
- Gan ystyried y nodyn hwn gan Dysgu Cymraeg i ystyriaeth rydym yn bwriadu archwilio eu syniadau a sut maent yn teimlo y gellid eu cyflwyno.
- *Anodd ond angen canolbwyntio ar newid agweddau plant a phobl ifanc drwy sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o hanes y Gymraeg yn lleol, yng Nghymru ac ym Mhrydain.*
- Rydym hefyd eisiau newid agweddau'r genhedlaeth iau tuag at y Gymraeg ac yn bwriadu archwilio ffyrdd o wneud hyn megis gwaith gyda '1Miliwn'.
- *Codi hyder a balchder y plant a sicrhau bod pob plentyn yn yr ardal yn cael y cyfle i ddysgu'r anthem genedlaethol.*
- Awgrym adeiladol iawn y gellir ei gymhwyso i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Gallwn ystyried gweithredu ar waith gyda Fforwm y Gymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent.

- *Parhau i sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy, amlwg ac yn cael ei thrin yn gyfartal ar ddeunyddiau'r Cyngor ac yn y parth cyhoeddus – enwau lleoedd ac adeiladau, cyhoeddiadau cyhoeddus er mwyn normaleiddio'r iaith.*
- *Gydag ailsefydlu rôl Swyddog Cefnogi'r Gymraeg bydd gennym hyd yn oed mwy o gefnogaeth wrth fonitro bod y Cyngor cyfan yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.*
- *Angen adnoddau a chynnwys fideo yn Saesneg wedi'u teilwra ar gyfer trigolion yr ardal i ddangos manteision dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Astudiaethau achos - pobl leol sydd wedi elwa o'r Gymraeg.*
- *Gallwn weld y potensial o ddefnyddio cyn-ddisgyblion o Flaenau Gwent a fynychodd addysg cyfrwng Cymraeg i weithio gyda ni i greu adnoddau hyrwyddo sy'n wirioneddol enghreifftio manteision y Gymraeg yn nhermau cymdeithasol, cyflogaeth a lles.*
- *Sesiynau ymwybyddiaeth iaith ar gyfer gweithwyr awdurdodau lleol wedi'u teilwra i wahanol sectorau - gosod targed meintiol?*
- *Ar ôl i'r hyfforddiant mewnol ar gyfer staff canolfan alwadau gael ei deilwra i'w cynorthwyo gyda'r gweithdrefnau ateb ffôn sydd ar waith, ein nod yw cynyddu ymhellach y cyfleoedd hyfforddi a ddarperir ac a gymerir ar draws y gwahanol sectorau.*
- *Cynnig sesiynau ymwybyddiaeth iaith i bob ysgol leol er mwyn sicrhau bod plant yn ymwybodol o gyd-destun a hanes lleol yr iaith Gymraeg.*
- *Gweithio gyda'n partneriaid ac ochr yn ochr â Fforwm Addysg Blaenau Gwent gan gymryd eu targedau a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg anelwn at gynorthwyo'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.*

4) A oes angen i ni wahodd unrhyw bartneriaid ychwanegol nad ydynt wedi'u nodi yn Strategaeth 2017-2022?

- *Heddlu Gwent o bosibl?*
- *Cymdeithas yr Iaith Gymraeg Blaenau Gwent*
- *Busnesau lleol, caffis, cymdeithas siopwyr*

5) Sut gallai'r Awdurdod Lleol gynorthwyo grwpiau lleol i gynyddu defnydd cymunedol o'r iaith?

- *Cynnal digwyddiadau ar y cyd? Cynnig cyfleusterau am ddim/am bris gostyngol ar gyfer digwyddiadau Cymraeg, chwilio am leoliad i gynnal grŵp? Cynnig grantiau ar gyfer prosiectau a fydd yn helpu i gyflawni meysydd sydd angen hwb o ran y Gymraeg?*
- *Hyrwyddo cyfleoedd ariannu i wasanaethau Cymraeg yn fwy rhagweithiol lle bo'n berthnasol.*

- *Sicrhau bod cyllid a chefnogaeth ar gael i grwpiau cymunedol sydd am ddatblygu prosiectau*
- *Mwy o help i oedolion sy'n dysgu Cymraeg e.e. grwpiau sgwrsio yn swyddfeydd y cyngor.*
- *Presenoldeb cyhoeddus i'r iaith e.e. sefydlu helfeydd trysor i deuluoedd ym mharciau Blaenau Gwent.*
- *Hyrwyddo cyfleoedd ariannu i wasanaethau Cymraeg yn fwy rhagweithiol lle bo'n berthnasol.*
- *Sicrhau presenoldeb yn y Fforwm Iaith er mwyn ysgogi cydweithrediad rhwng sefydliadau lleol a chraffu'r Strategaeth.*
- *O ystyried bod Rôl Swyddog Cefnogi'r Gymraeg yn cael ei hadfer dylai'r Tîm Polisi a Phartneriaethau fod â phresenoldeb cyson yn y Fforwm Iaith Gymraeg.*
- *Sefydlu cronfa 'Hyrwyddo'r Gymraeg' ar gyfer prosiectau cymunedol sy'n gyson ag amcanion y strategaeth newydd.*
- *Hyrwyddo cyfleoedd ariannu i wasanaethau Cymraeg yn fwy rhagweithiol lle bo'n berthnasol.*
- *Dilyn esiampl awdurdodau lleol eraill a chefnogi'r Wyl Gymraeg flynyddol.*
- *Ein nod yw gweithio'n fwy cydweithredol ag awdurdodau cyfagos i rannu adnoddau ac arferion gorau.*

Asesiad Effaith Integredig (IIA)

Mae'r Asesiad Effaith Integredig (IIA) wedi'i gynllunio i helpu i gefnogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol tra'n sicrhau cydymffurfiaeth ag ystod o ddeddfwriaeth statudol, megis Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n cynnwys 10 prif adran fel yr amlinellir isod:

